

O Awst y 1af 2024 i 31ain o Orffennaf 2025

1. Egwyddorion Cyffredinol Cymhwysedd

Bydd pàs bws am ddim yn cael ei roi i ddysgwyr mewn **addysg pellach llawn amser** sydd heb gyrraedd oedran 19 erbyn y 1af o Fedi 2024, a dysgwyr sydd wedi cyrraedd oedran 19 ond sydd wedi dechrau cwrs addysgiadol yn barod cyn cyrraedd yr oedran a fydd yn parhau ar y cwrs yna. Mae'r hawl yma yn berthnasol i ddysgwyr sy'n byw mwy na thair milltir o'r Coleg drwy'r ffordd byrraf posib, fel y diffinnir gan fesur teithio dysgwyr Llywodraeth Cymru. Bydd y ffordd yn cael ei ystyried ar gael iddynt os yw'n ddiogel i blentyn heb anabled na anhawster dysgu i gerdded y ffordd ar ei pen ei hun.*

2. Preswylfa Arferol

Bydd dysgwyr sy'n gymwys am deithio yn cael dyrannu llwybr ar ei pàs bws, bydd y llwybr yma yn cael ei benderfynu gan ei preswylfa arferol fel y datganwyd ar ei ffurflen ymrestru. Bydd dysgwyr sydd fel arfer yn byw gyda mwy nag un rhiant/gofalwr yn ystod y cyfnod mae nhw'n derbyn addysg neu hyfforddiant (yn ystod y tymor Dydd Llun i Ddydd Gwener) gyn gymwys i dderbyn uchafswm o ddwy lwybr bws wedi dyrannu ar ei pàs bws. Lle bo mwy na 2 breswylfa arferol yn cael ei hawlio, mae'r dysgwyr yn gymwys i'r ddau breswylfa agosaf at y Coleg.

3. Eithriadau

Gall ddysgwyr sydd ddim yn gymwys gyfrannu tuag at gostau teithio ar lwybrau sy'n bodoli'n barod, os oes sedd ar gael ar y llwybr yna. Fodd bynnag, bydd y sedd yma ond yn cael ei ddynodi gyda'r dealltwriaeth bod gan ddysgwyr cymwys flaenoriaeth os yw seddau'n gyfyngedig.

4. Pris Cludiant â Chymhorthdal

Am ddefnydd y bws a ddarperir gan y llywodraeth lleol bydd y taliadau isod yn berthnasol:

Pris Cludiant i Ddysgwyr sydd ddim yn gymwys am gludiant am ddim			
Band	Milltiroedd	Pris bob wythnos 2024-2025	Pris Dyddiol 2024-2025
1	3 i 7 milltir	£22.00	£5.50
2	8 i 14 milltir	£26.00	£6.50
3	dros 14 milltir	£30.00	£7.50

Nodwch os gwelwch yn dda yn dibynnu ar y nifer o wythnosau ar eich cwrs neu nifer o dyddiau'n mynychu gall y pris fod cymaint a uchafswm o £600 yn dibynnu ar lle rydych chi'n byw. Am fanylion o'r prisiau yma cysylltwch â'r adran Cyllid (lleolir yn G5.2) neu drwy e-bost finance@pembrokeshire.ac.uk (**Bydd cymhorthdal gan y Coleg i'r prisiau yma o 50% am 2023/2024**)

Am unrhyw gludiant Anghenion Addysgiadol Ychwanegol (AAY/ALN) a ddarperir tu hwnt i lwybrau bws y cyngor megis tacsis cyfeiriwch os gwelwch yn dda i'r canllawiau cludiant dysgwyr AAY ar gael ar wefan y Coleg.

5. Cymorth Ariannol tuag at brisiau cludiant

Mae cronfa ariannol wrth gefn (Financial Contingency Fund -FCF) ar gael i ddygwyr rhan amser a llawn amser a gall roi cyfraniaeth tuag at y costau yma. **Am fwy o wybodaeth neu i ymgeisio ymwelwch â Swyddfa Cyllid y Coleg (lleolir yn G5.2) neu galwch 01437 753134.**

6. Colled neu Ddifrod i'r pàs bws

Bydd taliad o £5.00 i ddarparu pàs bws newydd i dalu cost y cerdyn ac unrhyw gostau gweinyddol.

*Cyfeiriwch at y Polisi Cludiant sydd ar gael ar wefan y Coleg am fwy o wybodaeth os gwelwch yn dda.